

## Allan o Drefn

16 Medi 2020

### Cais am wybodaeth.

Diolch i chi am eich cais, a ddaeth i law ar 19 Awst, pan wnaethoch ofyn:

*Helo, O dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, hoffwn gael unrhyw restr sydd gan Gomisiwn y Senedd a'u staff o'r achosion a ddyfarnwyd 'allan o drefn' neu'n annerbyniol yn y siambr ers dechrau'r pumed cynulliad, boed yn eiriau neu ymadroddion, neu'n ymddygiad.*

Ar gyfer y cyfnod rhwng mis Mai a mis Hydref 2016, cyfeiriwch at FoI729 a anfonwyd atoch ym mis Hydref 2016.

Mae'r rhestr ganlynol yn cynnwys ymddygiadau neu weithredoedd y dyfarnwyd eu bod allan o drefn yn y Cyfarfod Llawn, ynghyd â'r dyddiadau perthnasol. Mae'r rhestr hon yn cael ei chadw gan swyddogion, ond nid yw'n gynhwysfawr. Bydd angen i chi edrych ar Gofnod y Trafodion i ddeall cyd-destun y dyfarniad ym mhob achos.

- Mae'r Llywydd yn ymyrryd pan mae Aelod yn defnyddio'r geiriau 'incompetence or corruption' / 'anghymhwyster neu lygredd', gan ei gyfeirio at ei datganiad a defnyddio iaith briodol. Pan mae'r Aelod ailadrodd y geiriau, mae'r Llywydd yn diffodd ei feicroffon ac yn galw ar y siaradwr nesaf. (19 Gorffennaf 2017)
- "Arrogantly" / "yn drahaus" am y Prif Weinidog (7 Mai 2019)
- "Biased" / "rhagfarn"— gofyn i'r Aelod dynnu'r sylw yn ôl yn dilyn cyhuddiadau a gyfeiriwyd at y Llywydd (12 Tachwedd 2019)

Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament  
Cardiff Bay  
Cardiff, CF99 1SN  
Ffôn/Tel: 0300 200 6224

E-bost/Email: [Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru](mailto:Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru)  
[Information-request@senedd.wales](mailto:Information-request@senedd.wales)

- "Deviation from the norm" / "gwyro oddi wrth y norm" o fewn cymdeithas o ganlyniad i hawliau pobl leiafrifol (12 Rhagfyr 2017)
- "Lied" / "wedi dweud celwydd" - Aelod yn cyfeirio at Boris Johnson yn ymwneud â'r Frenhines ac addoedi Senedd y DU (17 Medi 2019)
- "Political hatchet man" / "bwyellwr gwleidyddol" ynghylch penodi'r Comisiynydd Safonau Dros Dro (13 Tachwedd 2019)
- "Right wing shits" am Aelodau Cynulliad Plaid Cymru (20 Medi 2017)
- "Sheepish" / "llywaeth" am Aelod Cynulliad arall (22 Mawrth 2017)
- "Strange relationship with the truth" / "perthynas ryfedd gyda'r gwirionedd" am Carwyn Jones (27 Tachwedd 2019)
- "Suicide is an option" am gwestiwn rhethregol Aelod arall ynglŷn ag ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (29 Mawrth 2017)
- "Taken the shilling" / "wedi cymryd swllt" wrth amddiffyn y modd y mae'r Prif Weinidog wedi ymdrin â chwynion (29 Tachwedd 2017)
- Mae'r Llywydd yn gofyn i Aelod adael trafodion y Senedd am wneud darllediad byw ar y cyfryngau cymdeithasol wrth gymryd rhan yn y Cyfarfod Llawn a gynhelir drwy fideogynadledda (8 Ebrill 2020)
- Mae'r Llywydd yn gofyn i Aelod adael trafodion y Senedd am fod yn y Siambr a rhannu delweddau o'r Siambr ar y cyfryngau cymdeithasol tra'r oedd y Cyfarfod Llawn yn cael ei gynnal drwy fideogynadledda (oherwydd Covid-19), ac nid oedd y Siambr yn cael ei defnyddio. (24 Mehefin 2020)
- Yn ystod dadl ar adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, mae'r Aelod a oedd yn destun yr adroddiad yn codi materion sydd y tu allan i'w gwmpas. Mae'r Dirprwy Lywydd yn ei atgoffa o bwnc y ddadl (27 Medi 2017)
- Yn ystod sesiwn holi Comisiwn y Cynulliad, mae'r Dirprwy Lywydd yn diffodd microffon Aelod pan mae'n ceisio cwestiynu ymddygiad y Comisiynydd sy'n ateb

y cwestiwn ar fater nad yw'n gysylltiedig â'r cwestiwn (16 Mai 2018)

- Yn ystod y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes, mae'r Llywydd yn atgoffa Aelod i aros o fewn cwmpas yr eitem; mae'r Llywydd yn diffodd microffon yr Aelod pan na wnaeth gydymffurfio (17 Gorffennaf 2018)
- Mae'r Llywydd yn atgoffa'r Aelod nad yw'r term 'Aelod Anrhydeddus' yn cael ei ddefnyddio yn y Siambr: "that's the third time you've referred to an honourable lady. Nobody is honourable in this Chamber. We are all equal" / "dyna'r trydydd tro i chi sôn am wraig anrhydeddus? Nid oes neb yn anrhydeddus yn y Siambr hon. Rydym i gyd yn gyfartal." (7 Chwefror 2017). Unwaith eto, mae'r Llywydd yn atgoffa Aelod arall am beidio â defnyddio'r term 'Aelod Anrhydeddus' (8 Chwefror 2017)
- Mae'r Dirprwy Lywydd yn dweud y byddai'n adolygu'r cofnod ac yn dychwelyd at y cwestiwn ynghylch iaith anseneddol a ddefnyddiwyd yn ystod sylwadau a gafodd eu gwneud oddi ar y camera gan y Gweinidog yn ystod y Cyfarfod Llawn, a gynhaliwyd drwy fideogynadledda (22 Ebrill 2020). Mae'r Llywydd yn gwahodd y Gweinidog i siarad â'r Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn nesaf. Mae'r Gweinidog yn tynnu ei sylwadau yn ôl ac yn ymddiheuro i'r Llywydd a'r Cynulliad (29 Ebrill 2020)

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth  
Senedd Cymru**

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Wedd Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dilynwch y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

**ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru** neu'n ysgrifenedig i

Senedd Cymru  
Llywodraethu a Sicrwydd  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Information Commissioner's Office  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire  
SK9 5AF